# PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 7 Ebrill, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, S. Campbell, W. Gilligan, S.J. Haines, S.M. Hanks, N.P. Hodges, H.M. Payne, S.D. Perkes a R.R. Thomas

Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Cynghorwyr S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), M. Wilson (Cyngor Tref y Bont-faen a Llanfleiddan) (Eilydd), G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), C. Hadley (Cyngor Cymuned Tregolwyn), J. Radcliffe (Cyngor Cymuned Ewenni), S. Jefferies (Cyngor Cymuned Llandochau), J. Shaw (Cyngor Cymuned Llandŵ), J. Sykes (Cyngor Cymuned Llangan), M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llanmaes), P. Summers (Cyngor Cymuned Penllyn) (Eilydd), A. Phillips (Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro), A. Parry (Cyngor Cymuned Llansanffraid), T. Partridge (Cyngor Cymuned Llanddunwyd), I. Perry (Cyngor Cymuned Sain Niclas a Thresimwn) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned Y Wig).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr W.A. Hennessy a G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth y Cynghorwyr M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), Cyngor Cymuned Llancarfan, S.M. Toker (Cyngor Cymuned Sain Tathan), A. Cory (Cyngor Cymuned Sain Siorys a Llansanffraid ar Elai), N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog) ac N. Bosworth (Cyngor Cymuned Llanddunwyd).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

CYTUNWYD – Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 2025 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

CYTUNWYD – Y dylid diolch i'r Arolygydd Childs am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

EITEM AGENDA 5. GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

CYTUNWYD – Y byddai diweddariad ysgrifenedig gan y Rheolwr Grŵp O'Keefe yn cael ei roi i holl aelodau'r Pwyllgor drwy'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn dilyn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS – DIWEDDARIAD LLAFAR –

CYTUNWYD – Y dylid diolch i'r Cynghorydd Hadley am ei ddiweddariad ysgrifenedig a llafar yn rhinwedd ei swydd fel Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

EITEM AGENDA 7. CYFLWYNIAD: GWASANAETHAU BWS LLEOL YM MRO MORGANNWG –

CYTUNWYD –

(1) Diolch i'r Swyddogion a gwesteion Gweithredwyr Bws Allanol am eu hamser a'u cyflwyniad, fel y nodwyd gan y Pwyllgor.

(2) Bod adroddiad blynyddol pellach ar Wasanaethau Bws ym Mro Morgannwg yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gyda gwahoddiadau i Weithredwyr Bws perthnasol ar gyfer yr un cyfarfod.

(3) Gwahodd Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno adroddiad ar Wasanaethau Rheilffyrdd ar draws Bro Morgannwg mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried y cyflwyniad a ddarparwyd a'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod ar y cyllid parhaus, y newidiadau sydd i ddod i'r rhwydwaith bysiau, a hyrwyddo gwasanaethau ym Mro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am ddatblygiadau mewn gwasanaethau bysiau ar draws Bro Morgannwg a chynnal llinellau cyfathrebu rhwng Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr Bws Caerdydd, First Cymru ac Adventure Travel.

(3) Bod y Pwyllgor hefyd yn ystyried effeithiau teithio ar drenau ledled Bro Morgannwg.

EITEM AGENDA 8. ASESIAD O DDIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE (CAT) –

CYTUNWYD –

(1) Gofyn i holl Gynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol gysylltu â'u Clercod priodol i gwblhau'r arolwg Chwarae yn Eich Cymuned ar ran eu Cyngor priodol (os nad yw wedi'i gwblhau eisoes), fel y'i rhannwyd yn wreiddiol ar 25 Chwefror, 2025, erbyn dydd Llun, 14 Ebrill, 2025.

(2) Y dylid gwahodd holl Gynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned, i fynychu'r gweithdy Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth, 29 Ebrill, 2025 ar amser a bennir gan Brif Swyddog Byw'n Iach Cyngor Bro Morgannwg mewn ymgynghoriad â hwyluswyr y gweithdai.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad drwy gyfrwng nodyn atgoffa i sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cynrychioli eu cymunedau drwy gyfrannu at y broses Cyfleoedd Chwarae Digonol, gan gyfrannu at y ddyletswydd a nodir gan Lywodraeth Cymru yn Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardal.

(2) Sicrhau bod pob un o'r 26 o Gynghorau Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg yn cael eu cynrychioli yn y Gweithdy Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i rannu rhagor o wybodaeth am y Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac i amlygu ffyrdd y gall Cynghorau Tref a Chymuned gefnogi plant a phobl ifanc i chwarae yn eu cymunedau.